**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1013
Ein cyf/Our ref DET/02747/20

Janet Finch-Saunders MS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

28 Hydref 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref yn gofyn am ragor o wybodaeth am feini prawf cymhwysedd y Gronfa i Weithwyr Llawrydd.

Gweithiodd fy swyddogion yn agos gyda rhanddeiliaid wrth ddylunio'r Gronfa i Weithwyr Llawrydd, gan gynnwys gydag awdurdodau lleol, sy'n darparu'r gronfa ar ein rhan. Gwnaethom ymgysylltu'n helaeth ag undebau diwylliannol a chreadigol, gan gynnwys Undeb y Cerddorion a chyda gweithwyr llawrydd drwy Dasglu Llawrydd Cymru.

Cytunwyd ar y meini prawf cymhwysedd yn unol â'r sgyrsiau hynny, fel a ganlyn:

- Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i weithwyr llawrydd weithio ym mhedair is-sector allweddol y celfyddydau, diwydiannau creadigol, digwyddiadau celfyddydol a threftadaeth a diwylliant a threftadaeth, a rhaid bod canlyniadau creadigol/diwylliannol uniongyrchol i’w gwaith;
- Rhaid iddynt ddarparu prawf o rywfaint o waith fel gweithiwr llawrydd yn y sectorau hynny rhwng mis Ebrill 2019 a mis Gorffennaf 2020 a/neu brawf o waith a ganslwyd rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021.
- Rhaid iddynt beidio â chael arian gan y Grant Dechrau Busnes a lansiwyd ym mis Mehefin 2020 i helpu busnesau newydd i oroesi canlyniadau economaidd Covid-19;
- Rhaid iddynt fyw yn yr awdurdod lleol y maent yn gwneud cais iddo am arian;
- Cynghorwyd unigolion mewn rolau llawrydd sydd wedi gallu parhau ar lefelau gweithgarwch blaenorol neu’n agos i’r lefelau hynny (e.e. penseiri, dylunwyr graffig, dylunwyr gemau etc) gyda chymorth neu hebddo i beidio â gwneud cais.

Yn dilyn cyngor gan randdeiliaid, nid ydym wedi gofyn i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth fanwl a phrawf o golli gwaith i lefel benodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddarparu’r gronfa i adolygu'r trefniadau'n barhaus.  Mae cyflymder y gordanysgrifio i'r Gronfa i Weithwyr Llawrydd mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol yn y ddau gam darparu wedi amlygu'r lefelau enfawr o alw am y cymorth hwn.  Yn y cyfnod hwn o heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen, gyda galw sylweddol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, roeddem bob amser yn ymwybodol y byddai’r galw'n debygol o fod yn fwy na'r cyllid sydd ar gael. Mae nifer y ceisiadau yn dystiolaeth glir o'r angen am gymorth i'r grŵp hwn o weithwyr ac rydym wrthi'n archwilio opsiynau i ddarparu cymorth pellach yng nghyd-destun galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd ar gyllid.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism